**Atodiad 1**

**Diweddariad am Gontract Cynnal a Chadw Tiroedd Tai**

Mae’r gwelliannau allweddol wrth reoli a goruchwylio'r contract fel a ganlyn:

- Mae manyleb contract manwl bellach ar waith sy'n amlinellu disgwyliadau a safonau gwasanaeth disgwyliedig clir o fewn y cytundeb. Mae cosbau am berfformiad gwael a chymalau eraill i warchod y Cyngor yn cael eu cynnwys o fewn telerau'r contract.

- Bellach, mae cyfarfodydd rheoli contract misol i fesur perfformiad yn erbyn telerau'r contract ac mae perthynas cryf ac effeithiol wedi ei datblygu rhwng y Cyngor a'r contractwr.

- Mae swyddog penodedig gyda chyfrifoldeb am gysylltu gyda'r contractwr chwsmeriaid o ddydd i ddydd.

- Ymdrinnir ag unrhyw faterion a godir yn brydlon gyda chyfarfodydd safle ac ymweliadau â chwsmeriaid i ddangos gwasanaeth effeithiol ac ymatebol. Mae cwsmeriaid wedi dweud bod eu hymholiadau yn cael eu hateb yn gyflym.

- Mae gwelliant sylweddol yn ansawdd y wybodaeth a gynhwysir ar dir sy'n eiddo i'r gwasanaeth tai a gwmpesir gan y contract. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd o laswellt ond hefyd coed, gwrychoedd a llwyni.

- Mae rhaglen waith lawn ar gael i roi gwybodaeth i gwsmeriaid ynghylch pryd y caiff ymweliadau cynnal a chadw eu trefnu yn eu hardal. Mae hyn hefyd yn cefnogi staff eraill yn y gymdogaeth i allu delio ag ymholiadau cwsmeriaid.

- Caiff pob cwyn ac ymholiad ei gofnodi'n llawn a chaiff adroddiadau eu rhannu gyda'r contractwr. Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol iawn mewn cwynion a sylwadau gan gwsmeriaid. Fodd bynnag, bydd effaith lawn hyn yn cael ei fesur wrth i’r tymor tyfu fynd yn ei flaen.

- Dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf, cynhaliwyd nifer o waith ychwanegol er mwyn codi safonau ardaloedd, gan gynnwys rhoi sylw i lawer o wrychoedd a llwyni, gan eu torri i lawr a threfnu ar gyfer cynnal a chadw rheolaidd yn y dyfodol.

- Mae gwaith casglu sbwriel wedi’i gynnwys yn y contract a chaiff ei wneud gan y contractwr cyn torri gwair.

- Yn ogystal, mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) wedi cael ei gytuno gyda Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol i ddarparu ymweliadau casglu sbwriel ychwanegol mewn ardaloedd allweddol. Mae'r CLG hwn hefyd yn delio â cheisiadau i ymdrin ag achosion o dipio anghyfreithlon a graffiti.